# LXT193 Dysgu i addysgu Ieithoedd mewn Ysgolion Cynradd (Almaeneg i Ddechreuwyr)

Mae'r modiwl hwn yn cynnwys dwy elfen allweddol:

1. **modiwl lefel 1 rhagarweiniol Y Brifysgol Agored** sydd wedi'i gynllunio i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i siarad a deall Almaeneg syml mewn cyd-destunau bob dydd. Mae'n archwilio bywyd mewn gwledydd a chymunedau Almaeneg eu hiaith, sy'n eich cyflwyno i amrywiaeth eang o sefyllfaoedd ymarferol megis teithio, siopa, gweithio a bwyta allan. Mae adnoddau astudio yn cynnwys deunyddiau argraffedig a gwefan benodedig gydag amrywiaeth o weithgareddau ar-lein sy'n cefnogi dysgu annibynnol. Gyda'i gilydd, nid yn unig byddant yn rhoi sgiliau iaith i chi ond syniad go iawn o ddiwylliannau Almaeneg eu hiaith hefyd.
2. llinyn addysgeg gyda dull myfyriol cryf, sydd wedi'i gynllunio i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i addysgu Almaeneg i ddechreuwyr yn eich ystafell ddosbarth cynradd a datblygu sgiliau iaith a llythrennedd eich disgyblion. Mae'n archwilio'r ffordd bresennol o feddwl ym maes theori ac ymarfer addysgu Ieithoedd Cynradd, eich ymgyfarwyddo â chysyniadau addysgegol allweddol i'w hymgorffori mewn arferion ystafell ddosbarth dyddiol, defnyddio amlgyfrwng i'ch cyflwyno i ddulliau addysgu y tu fewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth a'ch tywys i gymhwyso eich gwybodaeth newydd yn eich cyd-destun addysgu eich hun. Bydd rhan o'r gwaith cwrs yn digwydd ar wefan benodedig ac mewn tiwtorialau ar-lein, ond byddwch hefyd yn treulio amser yn rhoi cynnig ar yr hyn rydych wedi'i ddysgu a myfyrio ar hyn gyda chyd-fyfyrwyr.

Modiwl

**Cod y modiwl** LXT193

**Credydau** 15

**Dull astudio** Dysgu o Bell

Mae'r gwaith cwrs yn cynnwys:

**Iaith**

**2** Aseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA)

**2** Aseiniadau rhyngweithiol a gaiff eu marcio gan gyfrifiadur (iCMA)

**Dim arholiad**

**Dim ysgol breswyl**

**Addysgeg**

- **4** darn myfyriol ffurfiannol 300 o eiriau ar ffurf blog am drafodaethau ymhlith y garfan o fyfyrwyr yn seiliedig ar gymhwyso'r addysgeg a'r iaith a astudiwyd yn yr ystafell ddosbarth
- **1** darn myfyriol ffurfiannol terfynol ysgrifenedig 500 o eiriau sy'n crynhoi effaith y dysgu ym mhum bloc y cwrs ar arfer addysgu'r myfyrwyr unigol, gan gynnwys cynllun i ddatblygu eich arfer eich hun ymhellach

## Yr hyn y byddwch yn ei astudio

**Iaith**

Mae'r modiwl yn seiliedig ar un llyfr ac wrth ei graidd mae iddo'r elfennau canlynol:

- gwybodaeth hawdd ei defnyddio ac mewn darnau byr sy'n ymdrin ag iaith ac agweddau diwylliannol
- datblygu sgiliau astudio ac iaith graddol
- datblygu geirfa syml ac ymadroddion penodol
- deunydd sain, yn cynnwys recordiadau gan siaradwyr Almaeneg cymwys ac amrywiaeth eang o weithgareddau siarad
- gweithgareddau ymarfer a phrofion hunanasesu i fonitro eich cynnydd
- clipiau fideo ar-lein rheolaidd i gefnogi eich gweithgareddau ymarfer.

Mae'r deunyddiau astudio wedi'u strwythuro a'u graddio'n ofalus, ac yn darparu digon o gyfleoedd i ymarfer yr iaith mewn cyd-destunau realistig, gyda phwyslais ar sgiliau gwrando a siarad. Erbyn diwedd y modiwl byddwch yn gallu siarad a deall iaith syml a byddwch wedi datblygu dealltwriaeth o agweddau allweddol o gymdeithas a diwylliant Almaeneg, Awstriaidd a Swistirol.

Mae'r modiwl hwn wedi'i gynllunio i'ch galluogi i gyflawni lefel o hyfedredd iaith sy'n cyfateb i lefel A1 Fframwaith Cyfeirio Ieithoedd Cyffredin Ewropeaidd Cyngor Ewrop. Byddwch wedi datblygu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r iaith yn ogystal ag ymwybyddiaeth o amrywiaeth ddiwylliannol mewn gwledydd Almaeneg eu hiaith sy'n ffurfio rhan allweddol o'r deilliannau dysgu ar gyfer astudio ar y lefel hon. Erbyn diwedd y modiwl byddwch wedi datblygu sgiliau astudio israddedig lefel 1 allweddol y Brifysgol Agored megis dysgu i weithio'n annibynnol a defnyddio strategaethau a fydd yn eich galluogi i ddatrys problemau a dadansoddi data.

**Addysgeg**

Mae'r modiwl yn seiliedig ar wefan benodedig ac wrth ei graidd mae iddo'r elfennau canlynol:

- theori a gwybodaeth hawdd ei defnyddio ac mewn darnau byr sy'n ymdrin ag addysgu Ieithoedd ar lefel Gynradd
- datblygu sgiliau astudio ac addysgu iaith graddol
- deunydd clyweledol, gan gynnwys gweithgareddau ystafell ddosbarth go iawn ar gyfer myfyrio beirniadol yn ogystal ag amrywiaeth o fentrau cymunedol, megis dysgu yn yr awyr agored, sy'n amlygu sut y gellir ymgorffori Ieithoedd mewn amrywiaeth eang o weithgareddau ysgol Gynradd
- canllawiau ar ddysgu rhyngddisgyblaethol ac ymgysylltu â'r gymuned ehangach
- gweithgareddau ymarfer a phrofion hunanasesu i fonitro eich cynnydd
- deunyddiau ar gyfer eich gwaith ymchwil pellach eich hun yn y maes hwn
- trafodaethau grŵp cyfoedion ar-lein rheolaidd i gefnogi eich gweithgareddau astudio ac ymarfer.

Mae'r elfen addysgeg yn cynnwys cydbwysedd o theori ac ymarfer sy'n eich galluogi i ymgysylltu â'r ddau mewn amgylchedd cefnogol proffesiynol. Byddwch yn cael y cyfle i gymhwyso eich sgiliau iaith newydd yn eich ystafell ddosbarth gyda'ch disgyblion.

Mae'r deunyddiau astudio wedi'u strwythuro a'u graddio'n ofalus, ac maent yn rhoi arweiniad clir ar sut i weithredu'r hyn rydych wedi'i ddysgu yng nghyd-destun eich ystafell ddosbarth eich hun. Erbyn diwedd y modiwl byddwch yn gallu addysgu iaith syml yn yr ystafell ddosbarth Cynradd drwy amrywiaeth eang o fathau o weithgareddau, byddwch wedi datblygu dealltwriaeth o agweddau allweddol ar addysgu Almaeneg fel iaith dramor a byddwch wedi cynyddu eich hyder yn yr agwedd hon ar eich ymarfer addysgu.

## Addysgu ac asesu

### Iaith

#### Cymorth gan eich tiwtor

Bydd gennych diwtor a fydd yn eich helpu gyda'r deunydd astudio ac yn marcio a rhoi sylwadau ar eich aseiniadau ysgrifenedig a llafar a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA) a gallwch ofyn iddo/iddi am gyngor ac arweiniad. Os byddwch yn newydd i'r Brifysgol Agored byddwch yn canfod bod eich tiwtor yn awyddus i'ch helpu gyda'ch dulliau astudio. Mae'r modiwl hwn fel arfer yn cynnwys cymysgedd o diwtorialau wyneb yn wyneb a thiwtorialau ar-lein. Noder, yn dibynnu ar ble rydych yn byw, bydd y gymysgedd yn amrywio. Bydd y rhain i gyd yn rhoi digon i gyfle i siarad a gwrando ar Almaeneg. Bydd lleoliad tiwtorialau wyneb yn wyneb neu ysgolion dydd yn dibynnu ar ddosbarthiad y myfyrwyr sy'n astudio'r modiwl.

#### Asesiad

Mae manylion asesu'r modiwl hwn i'w gweld yn y blwch ffeithiau uchod.

Mae'n rhaid i chi ddefnyddio system eTMA ar-lein i gyflwyno eich aseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA).

Mae'r TMA yn profi eich sgiliau ysgrifennu a llafar. Caiff eich sgiliau gwrando a darllen eu profi gan aseiniadau a gaiff eu marcio gan gyfrifiadur (iCMA) a gyflwynir ar y wefan. Cewch wybodaeth fanylach pan fyddwch yn dechrau'r modiwl.

### Addysgeg

#### Cymorth gan eich tiwtor

Bydd gennych diwtor ar gyfer addysgeg a fydd yn eich helpu gyda'r deunydd astudio ac yn marcio a rhoi sylwadau ar eich aseiniadau ffurfiannol a chyfunol, a gallwch ofyn iddo/iddi am gyngor ac arweiniad. Mae'r modiwl hwn fel arfer yn cynnwys cymysgedd o diwtorialau wyneb yn wyneb a thiwtorialau ar-lein. Noder, yn dibynnu ar ble rydych yn byw, bydd y gymysgedd yn amrywio. Bydd y rhain i gyd yn rhoi digon o gyfleoedd i gynllunio a myfyrio ar y gwaith o roi'r hyn rydych wedi'i ddysgu ar waith yn eich cyd-destun addysgu eich hun. Bydd lleoliad tiwtorialau wyneb yn wyneb neu ysgolion dydd yn dibynnu ar ddosbarthiad y myfyrwyr sy'n astudio'r modiwl.

#### Asesiad

Mae manylion asesu'r modiwl hwn i'w gweld yn y blwch ffeithiau uchod.

Asesiad ffurfiannol: eich blogiau myfyriol fel rhan o elfen gymhwyso pob uned.

Asesiad cyfunol: crynodeb o'r darnau myfyriol a luniwyd ym mhob bloc

#### Rheoliadau

Fel un o fyfyrwyr Y Brifysgol Agored, dylech fod yn ymwybodol o gynnwys y rheoliadau academaidd sydd ar gael ar ein gwefan Dogfennau Hanfodol.

## Yr hyn sydd wedi'i gynnwys

Y llyfr a gwefan benodedig gydag adnoddau a gweithgareddau ar-lein ychwanegol a recordiadau sain ar-lein. Fel myfyriwr iaith cofrestredig, byddwch yn cael mynediad i fforwm ar-lein lle y gallwch gyfathrebu â'ch cyd-fyfyrwyr.

## Bydd angen y canlynol arnoch

Clustffonau gyda meicroffon i siarad â'ch tiwtor a myfyrwyr eraill ar-lein yn ystod rhai o'r gweithgareddau astudio, a'r cyfleuster i chwarae CDs sain (opsiynol).

## Gofynion cyfrifiadurol

Bydd angen dyfais sydd â mynediad i'r rhyngrwyd arnoch i astudio'r modiwl hwn oherwydd defnyddir porwr gwe i gael gafael ar ddeunyddiau a gweithgareddau dysgu. Nodir unrhyw weithgareddau cyfrifiadurol eraill y bydd angen i chi eu cyflawni, megis prosesu geiriau, defnyddio taenlenni, cymryd rhan mewn fforymau ar-lein, a chyflwyno ffeiliau i'r brifysgol i'w hasesu yn neunyddiau'r modiwl. Os bydd angen unrhyw feddalwedd ychwanegol ar gyfer y tasgau hyn naill ai bydd yn cael ei darparu neu bydd ar gael am ddim. Efallai y bydd angen breintiau gweinyddol arnoch i osod y feddalwedd.

Y dyfeisiau addas yw:

- Bwrdd gwaith neu liniadur Windows sy'n rhedeg Windows 7 neu system weithredu hwyrach
- Bwrdd gwaith neu liniadur Macintosh sy'n rhedeg OS X 10.8 neu system weithredu hwyrach.

Ni fydd rhai mathau o feddalwedd yn rhedeg ar ddyfeisiau Linux, iOS nac Android.

**Efallai** y bydd netbook, llechen, ffôn clyfar neu gyfrifiadur Linux sy'n cefnogi un o'r porwyr a restrir isod yn addas. Fodd bynnag, efallai na fydd y dyfeisiau hyn yn addas ar gyfer rhai gweithgareddau. Os ydych yn bwriadu defnyddio un o'r dyfeisiau hyn sicrhewch fod gennych fynediad i ddyfais bwrdd gwaith neu liniadur sy'n defnyddio'r system weithredu Windows neu OS X rhag ofn na fyddwch yn gallu cwblhau'r holl weithgareddau ar eich dyfais symudol.

Mae fersiynau diweddar o'r porwyr canlynol yn addas ar gyfer cwblhau gweithgareddau ar-lein.

- Safari
- Chrome
- Firefox
- Ymyl

Neu Internet Explorer 9 ac uwch.

Bydd defnyddio porwr sydd wedi'i uwchraddio i'r fersiwn ddiweddaraf yn gwella diogelwch wrth gael mynediad i'r rhyngrwyd.

Gall defnyddio cyfrifiaduron cwmni neu lyfrgell eich atal rhag cael gafael ar rai deunyddiau ar y rhyngrwyd neu osod meddalwedd ychwanegol.

Er mwyn gallu siarad a gwrando ar ein trafodaethau ar-lein, bydd angen meicroffon a seinyddion/clustffonau.

Gall dyfeisiau sydd â sgriniau bach ei gwneud hi'n anodd gweld y deunydd a ddarperir a chwblhau'r gweithgareddau. Fodd bynnag, dylai dyfais sydd ag eglurdeb o 1024 picsel o leiaf yn llorweddol a hefyd o leiaf 768 picsel yn fertigol fod yn ddigonol.

Gweler ein gwefan Sgiliau ar gyfer astudio gyda'r Brifysgol Agored i gael rhagor o wybodaeth am sgiliau cyfrifiadurol ar gyfer astudio a chynigion addysgol ar gyfer prynu meddalwedd Microsoft Office.

## Os oes gennych anabledd

Noder bod y modiwl hwn yn gwneud defnydd sylweddol o ddeunyddiau sain a gweledol. Darperir trawsgrifiadau llawn o'r deunyddiau sain, ac eithrio'r rheini a ddefnyddir at ddibenion asesu. Mae'r elfennau ysgrifenedig a llafar y gofynnir i chi eu cwblhau fel rhan o'ch asesiad yn defnyddio ysgogiadau sain ac o bosibl ysgogiadau gweledol. Mae'r deunyddiau astudio ar gael mewn fersiynau amgen ar ffurf Word i'w defnyddio gyda meddalwedd darllen sgrin. Maent hefyd ar gael mewn fformat dogfen gludadwy (PDF) Adobe. Efallai na fydd rhai elfennau PDF Adobe ar gael neu ddim yn gwbl hygyrch drwy ddefnyddio meddalwedd darllen sgrin, a gall deunyddiau iaith dramor fod yn arbennig o anodd eu darllen yn y ffordd hon. Gellir darparu fersiynau o'r deunyddiau astudio ysgrifenedig wedi'u rwymo â chrib ar gais hefyd.

Bydd angen i chi wneud defnydd sylweddol o gyfrifiadur personol a'r rhyngrwyd. Os byddwch yn defnyddio caledwedd neu feddalwedd arbenigol i'ch helpu i ddefnyddio cyfrifiadur neu gyda'r math hwn o ddeunydd, fe'ch cynghorir i gysylltu â ni am gymorth y gellir ei roi i ddiwallu eich anghenion.

Os oes gennych ofynion astudio penodol dywedwch wrthym cyn gynted â phosibl, oherwydd gall gymryd sawl wythnos i drefnu rhai o'n gwasanaethau cymorth. Dysgwch fwy am ein gwasanaethau i fyfyrwyr anabl.